Cyngor Cymuned
EGLWYS BACH
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 02-03-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, John Lloyd Williams, Geraint Owen, Gwyn Jones, Austin Roberts, Arthur Williams, Gwenan Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Dim. |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod. Rhoddwyd cydymdeimladau'r Cyngor i Cyng Austin ar golli aelod o'r teulu.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (02/02/21).

   Cynigwyd cofnodion 02/02/21 yn gywir gan Cyng Geraint ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

   - Newid i'r Cofnodion – Pryderon goryrru yn y pentref – dim penderyniad wedi ei wneud eto.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Tendr Torri Glaswellt:**

     1 tendr wedi ei dderbyn gan A Williams. Cyng Austin yn cynnig ei dderbyn, Cyng John Lloyd yn eilio. Cynghorwyr i gyd yn cytuno. Clerc i atgoffa deiliad y tendr bod rhaid iddynt ofyn caniatâd y Cyngor cyn defnyddio cemegau.

   - **Costau Claddu:**

     Penderfynodd y Cynghorwyr symud yr eitem yma i gyfarfod mis Ebrill.

   - **Adroddiad Cae Chwarae:**

     Derbyniwyd llythyr gan CBSC i gadarnhau grant o £2,000 tuag at ail-ddylunio'r trac beicio. Derbyniwyd cymorth ychwanegol ar gyfer dylunio'r trac beicio. Trafodwyd cysgod i dimau

pêl-droed ond roedd angen cynllunio. Cyng Austin i wneud ymholiadau pellach. Adeiladwyd y trac beicio gwreiddiol 20 mlynedd yn ôl ar gost o £16,000 a dalwyd gan CBSC. Cyng Ceri yn gobeithio derbyn cynlluniau yn ystod y dyddiau nesaf. Cyng Ceri i ofyn am amcangyfrifon i wneud y gwaith cloddio.
Cynigiodd Cyng John Emlyn gael y cynlluniau ac yna gofyn i gwmnïau wneud y gwaith ac yna cyfarfod fel Cyngor i drafod ymhellach ymhen pythefnos. Eilwyd Cyng Arthur y cynnig hwn, a chytunodd pob Cynghorydd.

- **Awdit 19/20:**

  Ffurflen wedi ei arwyddo gan y Cadeirydd, y Clerc i orffen y gwaith.

- **Contract Clerc:**

  Y grwp o Gynghorwyr wedi cyfarfod pythefnos yn ol i drafod. Rhai polisiau ar goll megis polisi absenoldeb salwch a polisi iechyd a diogelwch. Cyng John Emlyn wedi ysgrifennu at Clerc Cyngor Tref Llanrwst i ofyn am bolisiau a trafodwyd yswiriant – atebolrwydd cyflogwyr. Trafodwyd pensiwn, mae rhaid talu y clerc £10,000 cyn gorfod talu pension.

6. **CYNLLUNIO**

Cyfeirnod: 0/48237
Gerddi Bodnant, Ffordd Bodnant, Eglwysbach LL28 5RE
Cynllun: Gosod Tanc Nwy Calor 1200 litr a sgrin bren naturiol 5 metr o Bwthyn y Prif Arddwr. Manylion yr Ardal Trin Carthion newydd a lle i ddŵr socian i ffwrdd. Ychwanegu ffens ystad fetel a gwrych brodorol bach o amgylch yr Ardal Trin Carthion, ynghyd â wal gynnal.

Dim gwrthwynebiad.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £5,455.17
Angladdau - £505.20
Cadw - £2,078.16

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00 (Mawrth 2021)
- Mark, Y Bee – £60.00 (Talebau Cystadleuaeth Ffenest Nadolig)
- Cradur.Com - £33.00 (Safle We)

**Angladdau:**
- Dim.

8. **GOHEBIAETH**

- **Llythyr: Carol Metcalfe - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Cymunedau Taclus Conwy Wledig - Offer Codi Sbwriel:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Dwr Cymru - pont Dolgarrog:**
  Noder er gwybodaeth. Rhoddodd Cyng Austin ddiweddariad ar y mater.
  Y Cynghorwyr yn cytuno i yrru llythyr o gefnogaeth i Gyngor Cymuned Dolgarrog yn eu ymgyrch i roi pwysau ar Dwr Cymru i gadw'r bont ar agor.

- **E-Bost: Cynlas Cyf. - Parciau i Bawb:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Grant Chwarae Cynghorau Tref a Chymuned:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – LoRaWan:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Cronfa Her Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22:**
  Noder er gwybodaeth. Y Clerc i fynegi diddordeb.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Tro Henblas – dwr allan i ganol y ffordd – draen wedi blocio;
- Pont wrth yr ysgol – panel solar a chamera Cyfoeth Naturiol yn pwyntio at y bont yn monitro lefel y dŵr;
- Tyllau yn Ffordd Hen Efail – Y Clerc i gysylltu ag ERF;
- Draen wedi blocio yn Berllan Bach – Y Clerc i gysylltu ag ERF;
- Draen wedi blocio y Ty Gwyn – Y Clerc i gysylltu ag ERF;
- Tro Rhandir – draen wedi blocio – Y Clerc i gysylltu ag ERF;
- Tua 8 o bolion BT rhwng Llindir a tro Nebo heb eu pigo i fyny - Y Clerc i gysylltu a BT;
- Cerrig wedi ei golchi i'r ffordd rhwng Chwefor a Crosengan.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

06/04/21
04/05/21
01/06/20
06/07/21

07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 o'r gloch.